Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Papur y Bwrdd

7fed Mai 2015

Teitl y papur:	**Papur Tystiolaeth: Statws Presennol yr Eog a'r Siwin Yng Ngyhmru**
Cyfeirnod y papur:	**CNC B B 28.15**
Paratowyd y papur gan:	Peter Gough
Diben y papur:	**Darparu gwybodaeth am statws ein stociau o eog a siwin.**
Argymhellion:	Gofynnir i'r Bwrdd: 1. Nodi statws presennol ein stociau o eog a siwin. 2. Cydnabod bod y stociau'n lleihau ac ystyried goblygiadau o safbwynt rheoli stociau yn y dyfodol. 3. Darparu cyngor ar gyfer cam nesaf y gwaith, lle byddwn yn nodi opsiynau ar gyfer adfer stociau.
A oes angen penderfyniad?	Oes – nodi'r asesiadau newydd o stociau.

Effaith: Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr amgylchedd**: Mae angen dŵr o ansawdd da ar bysgod, mae angen sicrhau bod cyflenwad da o ddŵr ar gael iddynt, ac mae angen iddynt gael mynediad i gynefin. Mae pysgod yn un o ddangosyddion allweddol perfformiad ecolegol ac ansawdd amgylcheddol. **Effaith ar yr economi**: Mae gan bysgodfeydd Cymru rôl bwysig i'w chwarae o safbwynt darparu swyddi ac incwm ym maes pysgota at ddibenion masnachol ac at ddibenion hamdden, ym maes rheoli pysgodfeydd ac ym maes twristiaeth. **Effaith ar y gymuned**: Gall pysgod chwarae rhan bwysig yn y broses o gysylltu pobl â'u hamgylchedd a darparu cyfleoedd o ran addysg, gweithgareddau hamdden a manteision cysylltiedig sydd o fudd i iechyd. **Effaith ar wybodaeth**: Mae angen i ni gael sylfaen dystiolaeth gref i lywio'r cyngor yr ydym yn ei roi i Lywodraeth Cymru ynghylch polisi pysgodfeydd, llywio

	penderfyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y modd y caiff pysgodfeydd eu rheoli, a llywio trafodaethau â phartneriaid a'r sawl sy'n cydgyflawni â ni.

Materion

1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno canlyniad yr asesiadau o stociau o eog a siwin ar gyfer Cymru.
2. Bellach, bernir bod y stociau o eog ym mhob un o brif afonydd Cymru ar gyfer yr eog, gan gynnwys yr afonydd sydd yn y saith safle *Natura 2000* lle mae'r rhywogaeth yn nodwedd ac yn y tair afon drawsffiniol, 'mewn perygl' neu 'mewn perygl tebygol' o fethu â chyrraedd y targedau ar gyfer stoc yn 2014. Rhagwelir y bydd pob un ond un o'r afonydd dan sylw'n aros yn y dosbarthiadau hynny nes o leiaf 2019.
3. Bernir bod bron hanner y stociau o siwin yn ein 33 o brif afonydd ar gyfer y siwin yn perthyn i'r categorïau 'ddim mewn perygl' neu 'ddim mewn perygl tebygol'.
4. Mae statws gwael llawer o boblogaethau'n golygu bod angen i ni nodi mesurau i adfer statws y stociau. Gallai'r mesurau hynny gynnwys cyflwyno cyfyngiad newydd ar nifer y pysgod sy'n cael eu lladd gan bysgotwyr a rhwydwyr, tra byddwn ni a'n partneriaid yn parhau i fuddsoddi mewn camau i adfer a gwarchod cynefinoedd.
5. Bydd cynigion ynghylch adfer stociau'n cael eu datblygu ar gyfer papur a gyflwynir i'r Bwrdd yn y dyfodol.

Cefndir

Yr eog

6. Bob blwyddyn byddwn yn asesu statws ein stociau o eog yn 23 o brif afonydd Cymru ar gyfer yr eog, drwy gymharu amcangyfrifon ynghylch nifer y pysgod sy'n dychwelyd i silio ym mhob afon â'r targedau perthnasol ar gyfer stociau.
7. Bellach, bernir bod y stociau o eog ym mhob un o'n hafonydd naill ai 'mewn perygl' neu 'mewn perygl tebygol' o fethu â chyrraedd y targedau ar gyfer stoc yn 2014, a rhagwelir y bydd pob un ond un o'r afonydd dan sylw'n aros yn y cyflwr hwnnw tan 2019, sef y flwyddyn nad yw ein gweithdrefnau'n gallu rhagweld ymhellach na hi. Dim ond 2 o'r afonydd sy'n dangos tuedd cadarnhaol o safbwynt amcangyfrifon ynghylch dyddodi wyau dros y degawd diwethaf.
8. Mae'r mesurau hyn hefyd yn cael eu defnyddio'n rhannol i benderfynu ynghylch cyflwr yr eog fel un o nodweddion safleoedd *Natura 2000*, ac o ganlyniad nid yw'r safleoedd hynny'n cyflawni eu hamcanion o ran cadwraeth.
9. Dros yr ychydig ddegawdau diwethaf gwelwyd bod stociau'n lleihau yn gyffredinol, a chaiff hynny ei adlewyrchu ym mherfformiad afonydd eog ar raddfa ddaearyddol eang. Caiff hynny ei gydnabod gan bob asiantaeth sy'n ymwneud â rheoli stociau o

eog yn rhyngwladol. Cydnabyddir mai'r prif ffactor sy'n achosi hynny yw'r lleihad yn nifer y pysgod sy'n goroesi yn y môr, sydd fwy na thebyg yn gysylltiedig â newid amgylcheddol yng Ngogledd yr Iwerydd.

10. Ymddengys na ellir gwneud llawer i leihau cyfraddau marwolaeth eogiaid yn y môr, ond mae gwaith i'w wneud o hyd i adfer a gwella cynefinoedd dŵr croyw er mwyn cynyddu nifer y gleisiaid a gaiff eu cynhyrchu a chanlyniad hynny.
11. Tra bod y gwaith hwnnw ar y gweill, mae'n bwysicach nag erioed erbyn hyn bod cynifer ag sy'n bosibl o eogiaid yn goroesi i silio bob blwyddyn, drwy leihau nifer y pysgod sy'n cael eu lladd mewn pysgodfeydd gwiail a rhwydi.

Y siwin

12. Rydym hefyd yn asesu statws ein stociau o siwin mewn 33 o afonydd, gan ddefnyddio tueddiadau'n ymwneud ag amser mewn dalfeydd. Mae hwn yn ddull llai soffistigedig na'r un a ddefnyddir ar gyfer yr eog, oherwydd cymhlethdod cymharol y siwin/brithyll ac, o ganlyniad, diffyg cyfeirbwyntiau biolegol y byddai modd eu cymharu â'r terfyn ar gyfer gwarchod yr eog.
13. Nid yw'r asesiadau ar gyfer 2014 wedi'u gwirio'n derfynol eto, ond mae'n debygol y byddant yn dangos bod oddeutu 50% o'r stociau'n perthyn i'r categorïau 'ddim mewn perygl' neu 'ddim mewn perygl tebygol'. Ar hyn o bryd, ni allwn ragweld perfformiad stociau yn y dyfodol.
14. Er bod yr asesiadau hyn o stociau'n codi llai o bryderon, nid ydym am fod yn hunanfodlon gyda'r adnodd pwysig hwn. Rydym yn ymwybodol o broblemau lleol sy'n effeithio ar stociau o siwin ac ar bysgota siwin, ac rydym yn ymwybodol bod rhai stociau'n isel ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried y rhain yn llawn yn ein papur opsiynau sydd ar ddod.

Adolygu Gorchmynion Cyfyngu ar Rwydi

15. Caiff pysgota eog a siwin mewn pysgodfeydd cyhoeddus arfordirol ac aberol yng Nghymru ei reoleiddio gan system o drwyddedau ac is-ddeddfau. Gan ddefnyddio'r pwerau dan Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 (fel y'i diwygiwyd) rydym yn rheoleiddio pwysau pysgota drwy gyfyngu ar nifer y trwyddedau a roddir. Mae'r Gorchmynion Cyfyngu ar Rwydi hyn yn para am gyfnodau o hyd at 10 mlynedd, a chyn iddynt ddod i ben rhaid i ni eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y broses reoleiddio'n cyd-fynd â'r pwysau pysgota sydd ar y stociau y mae modd eu pysgota.

16. Ar hyn o bryd ceir dau Orchymyn Cyfyngu ar Rwydi yng Nghymru, ac mae un ohonynt yn Aber Afon Dyfrdwy lle mae adolygiad o'r Gorchymyn yn nesáu at ei derfyn a lle mae cais i gymeradwyo'r gorchymyn yn barod i'w gyflwyno i weinidogion yn Llywodraeth Cymru a DEFRA. Mae'r pysgodfeydd cyhoeddus sy'n weddill yn y de-orllewin a'r gogledd wedi'u casglu ynghyd ar hyn o bryd mewn un Gorchymyn Cyfyngu ar Rwydi, a bydd yn rhaid i waith ddechrau'n nes ymlaen eleni er mwyn llunio'r achos technegol cyn i ymgynghoriad cyhoeddus gael ei gynnal ynghylch dulliau rheoli arfaethedig.
17. Bydd statws ein stociau o bysgod mudol o deulu'r eog yn sail i'r asesiad technegol.

Materion eraill

18. Rydym yn nodi nad Cymru yw'r unig wlad sy'n gweld statws ei stociau o eog yn lleihau. Ar hyn o bryd, mae mesurau radical ar waith yn yr Alban, Iwerddon a Chanada i reoli nifer yr eogiaid sy'n cael eu dal, ac mae mesurau o'r fath yn cael eu hystyried yn Lloegr hefyd erbyn hyn.
19. Wrth ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol, byddwn yn ystyried y canlynol:

- Nid ydym yn credu mai pysgota â gwialen neu bysgota â rhwyd yw'r rhesymau dros statws gwael stociau pysgod. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn sicrhau bod cynifer ag sy'n bosibl o bysgod yn goroesi i silio, tra bod gwaith atgyweirio a gwella cynefinoedd ar sail yr egwyddor o reoli adnoddau naturiol yn mynd rhagddo.
- Mae cyfraddau goroesi eogiaid yn y môr ar eu lefel isaf erioed.
- Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o adfer cynefinoedd dŵr croyw er mwyn sicrhau bod cyfraddau cynhyrchu rhywogaethau o deulu'r eog yn ein hafonydd yn cael eu codi i'r lefelau gorau posibl.

Argymhellion

20. Gofynnir i'r Bwrdd:

- Nodi statws presennol ein stociau o eog a siwin.
- Cydnabod bod y stociau'n lleihau ac ystyried goblygiadau o safbwynt rheoli stociau yn y dyfodol.
- Darparu cyngor ar gyfer cam nesaf y gwaith, lle byddwn yn nodi opsiynau ar gyfer adfer stociau.

Camau nesaf

21. Byddwn yn awr yn dechrau paratoi opsiynau ar gyfer mesurau i adfer a gwarchod pysgod mudol o deulu'r eog yng Nghymru, gan gydnabod y rôl bwysig y maent yn ei chwarae o safbwynt cynnal manteision economaidd-gymdeithasol, a hynny'n aml yn ardaloedd gwledig Cymru.
22. Byddwn yn cychwyn ac yn cynnal cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu, ac yn ei ddefnyddio i geisio gweithio gydag eraill i adnabod problemau a rhoi atebion ar waith.
23. Byddwn yn trafod opsiynau â phartneriaid a rhanddeiliaid fel ein bod i gyd yn adnabod y problemau a'r dulliau gorau o gyflawni camau gweithredu er mwyn gwella ein hadnodd o ran pysgodfeydd.

Risgiau

Her gyfreithiol

24. Nid oes her gyfreithiol ar hyn o bryd, ond gallai rhai o'r opsiynau a nodir gennym fod yn annerbyniol a gallent arwain at her.

Cyfathrebu

25. Rydym yn gobeithio y bydd rhanddeiliaid yn ymwneud yn llawn â'r materion a'r prosesau y byddwn yn eu nodi. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai rhai rhanddeiliaid ddewis peidio â gwneud hynny.

Adnoddau

26. Bydd rhai o'r opsiynau'n gofyn am adnoddau sylweddol o ran staff – adnoddau y bydd y busnes efallai'n ei chael yn anodd ymrwymo i'w darparu.

Goblygiadau ariannol

27. Bydd angen asesu ar gyfer yr ystod o opsiynau yr ydym yn canfod . Mae angen i nodi ffynonellau ariannu newydd ar gyfer adfer cynefinoedd cynnal.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Amherthnasol.